



Grantiau newydd ar gyfer coetiroedd newydd

Yn y rhifyn hwn:

Llefrith o gywarch	2
TB mewn anifeiliaid	2
Clefyd y Lleng Filwyr o gompost	3
Gweithdai Perllan	3
Salmonela ac wyau hwyaid	3
Digwyddiadau CALU	4

Mae coetiroedd yn rhan bwysig o'r amgylchedd. Mae iddynt lawer o fanteision, o roi coed ar gyfer gwahanol ddibenion a thanwydd, a rhoi cysgod i anifeiliaid. Maent hefyd yn helpu i atal llifogydd drwy liniaru rhediad dŵr a gallant helpu i gloi carbon. Mae coetiroedd yn llefydd gwych hefyd ar gyfer gweithgareddau hamdden, boed yn gerdded, marchogaeth, beicio mynydd neu unrhyw rai o'r gweithgareddau eraill a fwynheir mewn coetiroedd led led Cymru. Yr un pryd, wrth gwrs, mae coetiroedd yn gynefin pwysig ar gyfer lliaws o rywogaethau bywyd gwyllt.

I gydnabod pwysigrwydd coetiroedd, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi lansio cynllun grantiau newydd i greu coetiroedd fel rhan o Glastir. Bwriad penodol y grantiau yw annog greu coetiroedd newydd.

Lluniwyd map o Gymru yn dangos y mannau a ystyrir yn addas ar gyfer sefydlu coetiroedd newydd. Yn y mannau hyn, gall lleiniau o dir mor fychan â 0.25ha fod yn addas i dderbyn grantiau i greu coetiroedd newydd.

Yn y mannau cymwys, gall grantiau helpu tuag at gostau sefydlu'r coetir, yn ogystal â helpu tuag at ffensio a thâl cynnal a chadw cyson am 15 mlynedd.

Telir grantiau ar wahanol gyfraddau, yn dibynnu ar fath y coetir sy'n cael ei sefydlu. Rhoddir y cyfraddau isaf am yr hyn a elwir yn 'goetir bach, syml'. Ar gyfer hwn, telir grant sefydlu o £500/

ha yn y flwyddyn gyntaf, gyda thaliadau o £150/ha yr un am yr ail a'r drydedd flwyddyn.

Rhoddir y grant uchaf am goetiroedd a elwir yn 'goetiroedd brodorol – carbon'. Sefydlir y coetiroedd hyn yn ôl dwysedd o 2,500 o goesynnau'r hectar, gan ddefnyddio stoc frodorol, gyda hyd at 20% o lwyni coediog yn cael eu caniatáu. Prif ddiben y coetiroedd hyn yw storio carbon. Yn achos y math hwn o goetir, bydd grant y flwyddyn gyntaf yn £3,500, gyda grantiau o £500 ar gyfer yr ail a'r drydedd flwyddyn.

I help perchenogion tir i weld pa fath o goedlannau yw'r mwyaf addas ar gyfer eu tir, sefydlwyd rhwydwaith o Swyddogion Project. Gall y cynghorwyr hyn egluro'r cynllun a helpu i ddatblygu ceisiadau am grantiau. Ni chodir unrhyw dâl ar berchennog y tir am y gwasanaeth hwn.

I wneud y cynllun yn arbennig o ddeniadol i ffermwyr, mae'r tâl cynnal a chadw cyson yn uwch i ffermwyr nag i rai nad ydynt ffermwyr. Gwnaed newidiadau hefyd i'r rheolau Taliad Sengl, sy'n golygu y gellir dal i hawlio Taliad Sengl ar y mannau hynny a neilltuir ar gyfer coetiroedd dan gynllun Glastir.

I weld a yw eich tir chi mewn ardal addas ar gyfer greu coetir ac i gael mwy o fanylion am y cynllun, ffoniwch 0300 068 0300 neu e-bostiwch bww.ts@forestry.gsi.gov.uk neu fynd i [### Pwnciau CALU:](http://www.forestry.gov.uk/forestry/INFD-</p>
</div>
<div data-bbox=)

- Garddwriaeth
- Bio-egni
- Da Byw Amgen
- Cnydau Âr
- Cnydau Amgen

Rhagweld cynnydd ym mhris cashmir

OEDECH CHI'N

GWYBOD ...

Mae arbenigwyr yn darogan cynnydd sylweddol ym mhris cashmir eleni. Ceir y gwlan meddal hwn yn bennaf o rywogaethau o eifr Cashmir, ac felly wrth gwrs y cafodd ei enw. Ceir cashmir drwy gribo'r ffibrau oddi ar y geifr neu drwy eu cneifio. Yn Asia y cynhyrchir y rhan fwyaf o gashmir o bell ffordd. Mae yna ychydig o gynhyrchwyr cashmir arbenigol ym Mhrydain, ond nid ydynt yn ddigon i gael fawr ddim effaith ar y symiau enfawr o wlan cashmir rydym yn eu defnyddio bob blwyddyn. Felly, rydym yn ddibynnol ar fewnforion.

Y rheswm dros y cynnydd mawr a ddisgwylir ym mhris cashmir yw'r gaeaf caled iawn a welwyd yn yr ardaloedd lle cedwir y rhan fwyaf o'r geifr. Bu farw llawer o ganlyniad i'r oerni ac mae llawer o rai eraill wedi cael eu bwyta gan eu perchenogion gan fod bwyd mor brin.

Ym Mhrydain, y prif ffibr a geir o eifr yw moher sydd, yn ddigon dryslyd, yn dod o'r afr angora. Mae ffibrau angora i'w cael o gwningod angora. Er nad oes gan gashmir unrhyw beth i'w wneud â moher, mae'r cynnydd mewn pris yn debygol o godi pris moher hefyd, sy'n newyddion da i gynhyrchwyr.

Adroddiadau newydd ar ddyfodol cynhyrchu bwyd yn cael eu cyhoeddi

OEDECH CHI'N

GWYBOD ...

Mae dechrau blwyddyn yn aml yn gyfnod pryd y cyhoeddir dogfennau sy'n sail i bolisiau ac nid yw eleni'n eithriad. Mae dau adroddiad wedi canolbwyntio ar ddyfodol bwyd a ffermio, ond gan roi safbwyntiau ac awgrymiadau pur wahanol.

Fe wnaeth Swyddfa Wyddoniaeth Llywodraeth Prydain gyhoeddi adroddiad *Foresight* ar "The Future of Food and Farming : Challenges and choices for global sustainability" – ar gael yn

<http://www.bis.gov.uk/foresight/our-work/projects/current-projects/global-food-and-farming-futures/reports-and-publications> .

Yn y cyfamser, cyhoeddodd y *Worldwatch Institute* "State of the World 2011: Innovations that Nourish the Planet" – ar gael yn rhannol yn <http://www.worldwatch.org/sow11> .

Beth bynnag fo eich safbwynt, mae un peth yn glir – mae cynhyrchu bwyd o'r diwedd yn cael y sylw y mae'n ei haeddu.

Polidwneiau a chynllunio: Penderfyniad y Llys Apêl

Mae achos cyfreithiol cymhleth yn ymwneud â pholidwneiau ar gyfer cynhyrchu ffrwythau meddal newydd gael ei setlo yn y Llys Apêl. Roedd yr achos yn ymwneud â chynhyrchwr o Sir Henffordd a oedd wedi cael caniatâd cynllunio i godi polidwneiau.

Fodd bynnag, fe wnaeth grŵp gweithredu lleol herio'r penderfyniad i roi caniatâd cynllunio ar y sail bod y tir dan sylw yn rhan o Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, ac felly'n 'lled-naturiol'. Golygai hyn y dylid bod wedi cynnal Asesiad Effaith Amgylcheddol cyn rhoi caniatâd cynllunio.

Roedd yr apêl gan berchen y tir wedi ei seilio ar y ffaith bod y tir wedi cael ei ddefnyddio fel tir â'r a chynhyrchu garddwriaethol am lawer o flynyddoedd ac nad oedd yn 'lled-naturiol'.

Cefnogwyd yr apêl gan yr NFU. Fe wnaethant ddweud ei bod yn ymddangos bod mwy o synnwyr cyffredin yn cael ei ddefnyddio'r dyddiau hyn wrth ystyried ceisiadau cynllunio ar gyfer polidwneiau.

Ydych chi'n gwybod pa blâu planhigion y dylech roi gwybod amdanynt?

Mae rheoli plâu ac afiechydon yn dasg feunyddiol i lawer o gynhyrchwyr. Oherwydd y gallant achosi gymaint o ddinistr i systemau cynhyrchu, mae angen rhoi gwybod i'r awdurdodau am rai plâu. Felly, os ydych yn gweld, neu'n amau, fod rhai afiechydon ar eich cynydau, mae'n ddyletswydd arnoch i roi gwybod i Defra am hynny.

Ar ei gwefan mae gan Fera, Yr Asiantaeth Ymchwil Bwyd a'r Amgylchedd (*Food and Environment Research Agency*) adran sy'n rhestru'r plâu hyn a gwybodaeth ddefnyddiol ar sut i'w hadnabod. Ar hyn o bryd mae 29 cofnod ar eu rhestr o blâu – mae rhai o'r rhain ar gyfer

rhywogaethau unigol (er enghraifft, y Pryf Gwyn Tybaco /Tobacco Whitefly, *Bemisia tabaci*), tra bo eraill yn cynnwys nifer o rywogaethau o fewn genws. I gael mwy o wybodaeth am y plâu hyn, ewch i <http://www.fera.defra.gov.uk/plants/publications/plantPestDiseaseFactsheets.cfm>

Mae Fera hefyd yn cynhyrchu cylchlythrau rheolaidd, gan roi gwybodaeth gyfredol ddefnyddiol i ffermwyr a thyfwr i'w helpu i warchod eu cynydau a'u helw. Mae'r rhain ar gael am ddim ar wefan Fera yn <http://www.fera.defra.gov.uk/plants/publications/plantClinicNews.cfm>. Gellwch gofrestru i dderbyn hysbysiad pan gyhoeddir cylchlythyr

Y galw am lus yn dal i gynyddu

Mae ffigurau diweddaraf yn dangos bod hoffter Prydain o lus yn dal i dyfu. Er mai mefus yw ein hoff ffrwyth o hyd, erbyn hyn mae llus wedi pasio mafon fel yr ail ffrwyth meddal mwyaf poblogaidd. Y llynedd prynwyd 12,759 tonn o lus ym Mhrydain, cynnydd o 11.4% ar y gwerthiant yn 2009. Ar y llaw arall, gwelwyd gostyngiad o 12.9% yn 2010 mewn gwerthiant mafon o'i gymharu â 2009, gyda 12,315 tonn yn cael eu gwerthu ym Mhrydain.

Digwyddiadau i ddod

Mae gennym amserlen lawn o weithdai ymarferol a seminarau gwybodaeth hynod ddefnyddiol wedi eu trefnu.

Oherwydd cyllid a gawn drwy Raglen Cyswllt Ffermio Llywodraeth y Cynulliad, rydym yn gallu cynnig y cyfleoedd hyfforddi hyn am ddim

Arweinir y digwyddiadau hyn gan rai o'r arbenigwyr uchaf eu parch yn eu sector. Maent yn rhoi cyfle i gynhyrchwyr gael gwybodaeth a phrofiad nad ydyw ar gael iddynt yn unman arall.

Maent hefyd yn ffordd ragorol o gyfarfod â phobl sy'n ymwneud â'r un math o fusnes â chi.

Mae'r rhain yn ddigwyddiadau cyfeillgar iawn, ac er bod y cynnwys o'r safon uchaf, mae'r wybodaeth yn cael ei chyflwyno mewn ffordd hawdd ei deall. Mae'r gweithdai a'r seminarau'n rhai rhyngweithiol ac mae'r rhai sy'n dod iddynt yn cael eu hannog i ofyn cwestiynau a chymryd rhan ymarferol er mwyn sicrhau eu bod yn elwa cymaint â phosibl oddi wrth y

diwrnod.

Mae peth o'r rhaglen hon i'w chael ar dudalen ôl y cylchlythyr hwn, ond i gael y wybodaeth ddiweddaraf, ffoniwch ni ar —01248 680450— neu fynd i'n gwefan —www.calu.bangor.ac.uk

Os oes gennych unrhyw awgrymiadau am bynciau eraill y dylem roi sylw iddynt, naill ai fel seminar neu weithdai, rhowch wybod i ni. Rydym hefyd yn cadw golwg bob amser am leoliadau newydd a diddorol i gynnal digwyddiadau; drachefn, rhowch wybod i ni os oes

OEDDECH CHI'N

GWYBOD ...

OEDDECH CHI'N

GWYBOD ...

CANOLFAN DEFNYDD TIR AMGEN

Canolfan Ymchwil Henfaes
Prifysgol Bangor
Abergwyngregyn
LLANFAIRFECHAN
LL33 0LB

Ffôn: 01248 680 450
Ffacs: 01248 681730
E-bost: calu@bangor.ac.uk

www.calu.bangor.ac.uk

Yn Cefnogi Defnyddio Tir yn Gynaliadwy



Digwyddiadau i ddod gan CALU

Cysylltwch â ni i gael mwy o wybodaeth am unrhyw rai o ddigwyddiadau CALU. Rhestrir mwy o ddigwyddiadau ar ein gwefan - www.calu.bangor.ac.uk. Cyllidir y digwyddiadau hyn trwy Cyswllt Ffermio. Mae pob digwyddiad AM DDIM. Archebwch eich lle'n fuan – mae ein digwyddiadau'n dod yn gynyddol boblogaidd ac maent yn llenwi'n gyflym.

Cofiwch gadarnhau bob amser fod y digwyddiad yn cael ei gynnal cyn i chi gychwyn.

23 Chwefror— Gweithdy: Dulliau Integredig o Reoli Plâu mewn Systemau Garddwriaethol, Seiont Nurseries, ger Caernarfon, LL55 2BB

24 Chwefror— Gweithdy: Tocio Coed Afalau yn y Gaeaf, Llanerchaeron, SA48 8DG

28 Chwefror— Seminar: Gwlithod (*Slugs*) — eu bioleg a sut i'w rheoli, Castell Picton, Hwlfordd, SA62 4AS

1 Mawrth- Gweithdy: Epiliaeth a Chyfyngau Tyfu, Aberglasney, Llanarthne, SA32 8QH

8 Mawrth —Seminar: Gwlithod (*Slugs*) — eu bioleg a sut i'w rheoli, Canolfan Ymchwil Henfaes, Abergwyngregyn, LL33 0LB

15 Mawrth— Gweithdy : Adfer ac adnewyddu perllannau a esgeuluswyd, Plas Tan y Bwlch, Maentwrog, LL41 3YU

24 Mawrth— Gweithdy: Rheoli Perllannau Llus ac Afalau, Bettisfield Hall, Whitchurch, SY12 2LB

Ffeithiau am CALU

Mae CALU'n cyflwyno Rhaglen Datblygu Rheolaeth Tir Cyswllt Ffermio. Mae'r rhaglen yn rhoi gwybodaeth i unrhyw fusnes yng Nghymru sydd â diddordeb yn y canlynol:

- Garddwriaeth
- Bio-egni
- Da Byw Amgen
- Cnydau Âr
- Cnydau nad ydynt yn rhai bwyd

Mae gan CALU dri aelod staff parhaol a rhwydwaith o arbenigwyr cysylltiedig sy'n ymdrin â'r holl feysydd yng nghylch gorchwyl CALU.

GWEITHGAREDDAU CALU:

- Dyddiau agored
- Arddangosiadau
- Taflenni technegol
- Dyddiau hyfforddi
- Erthyglau i'r wasg
- Taflenni gwybodaeth am gnydau

Adroddiadau project

Sgyrsiau

Grwpiau cynhyrchwyr

Sioeau amaethyddol

Ilyfrynau gwybodaeth

PARTNERIAID CALU :

Prifysgol Bangor

Coleg Garddwriaeth Cymru

ADAS Cymru

Coed Cymru

Coleg Llysfasi

